## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLYS-WEN, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Llys-wen, ym Mhowys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Sirol yr A438 (o'r enw Cyffordd Croesffordd Pont-y-bat), hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o ganolbwynt Pont Felin-newydd, Llys-wen, Powys.

Y llwybr arall ar gyfer gyrwyr sy'n dymuno teithio i'r gogledd o ben deheuol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd teithio i'r dwyrain ar yr A438 hyd at ei chyffordd â'r A479 ym Mronllys, yna i'r gogledd ar yr A479 i Lys-wen ac yna i'r de-orllewin ar yr A470 hyd at ben gogleddol y darn o'r ffordd sydd ar gau. Mae'r llwybr i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 11 Mai 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 07:00 o'r gloch tan 19:00 o'r gloch bob dydd rhwng 11 Mai 2026 a 22 Mai 2026 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei roi cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn
https://www.llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (LLYSWEN, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Llyswen, in Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road that extends from the centre point of its junction with the A438 County Road (known as Pontybat Crossroads Junction), to a point 100 metres north of the centrepoint of Felin-newydd Bridge, Llyswen, Powys.

The alternative route for drivers wishing to travel north from the southern extent of the closure will be to travel east on the A438 to its junction with the A479 at Bronllys, then north on the A479 to Llyswen and then southwest on the A470 to the northern extent of the closure. The route is reversed for southbound traffic.

The Order comes into force on 11 May 2026. The temporary prohibition is expected to operate from 07:00 hours until 19:00 hours each day from 11 May 2026 to 22 May 2026 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be given before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at
https://gov.wales/road-orders

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government